# Penarlâg

**Pellter:** 2.6km / 1.6 milltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 1 awr

Dim Camfeydd

Caffis ar gael yn y pentref ac yn Llyfrgell Gladstone.

Mae'r llwybr hwn yn dilyn llwybrau o gwmpas y pentref, sy'n pasio'r eglwys a'r llyfrgell ac yna'n mynd i dir y castell. Mae cae chwarae ar y llwybr.


1. Gadewch yr orsaf a throi i'r dde. Croeswch y ffordd a dilyn yr arwydd llwybr troed i'r chwith i'r cae chwarae. Dilynwch y llwybr i lawr yr ochr dde, a chadwch i'r dde nes bydd y llwybr yn cwrdd â'r ffordd wrth dŷ mawr â nodweddion du a gwyn.

2. Croeswch y ffordd sy'n mynd i'r chwith, ac fe welwch arwydd y llwybr troed yn mynd â chi drwy'r twll yn y wal ac at yr eglwys. Dilynwch at yr eglwys ac o gwmpas ochr dde'r adeilad. Mae'r eglwys ar agor i ymwelwyr fel arfer. Wrth fynd drwy'r brif gât ar y dde mae Llyfrgell Gladstone. Cafodd ei hadeiladu yn 1902 ac mae'n sefydliad unigryw sy'n werth ymweld ag ef.

3. Ewch yn eich blaen i lawr Lôn yr Eglwys i'r briffordd a throi i'r chwith. Dilynwch y pellter byr at y groesffordd. Ar y dde i chi mae'r fynedfa i dir Castell Penarlâg. Mae llawer o dir y castell ar gau i'r cyhoedd ond gallwch gerdded drwy'r brif fynedfa drwy'r parcdir hyfryd i weld y Castell.

4. Ar ôl gwneud hyn, dewch yn ôl drwy'r brif fynedfa a throwch i'r chwith gan fynd i lawr yr allt a mynd heibio'r maes parcio. Yn union ar ôl y maes parcio, croeswch y ffordd a mynd drwy'r gât i'r llwybr troed. Dilynwch y llwybr nes i chi gyrraedd adeiladau. Yno, cymerwch y llwybr i'r dde tuag at fwy o dai.

5. Wrth fynd i mewn i'r stad o dai, cymerwch y troad cyntaf i'r chwith. Bydd toriad terfynol yn mynd â chi drwodd i'r briffordd lle byddwch yn troi i'r chwith ac yn cyrraedd yn ôl i'r orsaf.




Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau

Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023